# CADWCH EICH PIBELLAU'N LLIFO

Sut i gael gwared ar fraster, olew, saim
a gwastraff bwyd mewn ffordd gyfrifol

Dŵr Cymru
Welsh Water

# GALLWCH CHI STOPIO'R BLOC

**Mae braster, olew, saim a sbarion bwyd yn achosi problemau difrifol pan fo pobl yn defnyddio sinciau a draeniau i gael gwared arnynt. Maen nhw'n achosi tagfeydd sy'n gallu arwain at lifogydd a llygredd mewn cartrefi, busnesau a'r gymdogaeth leol.**

Er nad yw braster, olew a saim i'w gweld yn niweidiol, wrth oeri, maen nhw'n caledu ac yn ceulo. Wrth arllwys y pethau hyn i'r draen neu'r sinc, rydych chi mewn perygl o achosi tagfa yn y bibell, neu mewn rhan o'r bibell, sy'n gallu bod yn drychinebus i'ch draeniau.

Mae hi'n bwysig eich bod chi'n gwybod eich bod mewn perygl o achosi tagfa yn eich pibell wrth olchi'r pethau hyn i lawr trwy'r plwg. Mae gwaredu'r pethau hyn trwy'r plwg, y draen (gan gynnwys twll archwilio) neu'r tŷ bach yn drosedd o dan Adran 111(1) (a) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 – mae'r Ddeddf yn datgan ei bod hi'n drosedd "rhyddhau i garthffosydd cyhoeddus unrhyw fater a allai darfu ar lif dŵr gwastraff".

Y gwir amdani yw y gall anwybyddu'r gyfraith olygu eich bod chi'n achosi tagfa yn y garthffos, a byddwch mewn perygl o orfod talu costau atgyweirio ac adfer, a chostau unrhyw ddifrod a achosir i eiddo cyfagos neu'r amgylchedd.


Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad yw braster, olew a saim yn mynd i'ch pibellau – felly gweithredwch nawr.




# Y DA A'R DRWG YN Y GEGIN

Y newyddion da yw ei bod hi'n hawdd amddiffyn eich busnes rhag llifogydd oherwydd tagfa mewn pibell.


## COFIWCH




Crafu a sychu platiau, sosbenni ac offer cyn eu golchi, a rhoi'r sbarion yn y bin neu'r bin ailgylchu bwyd



Casglu olew gwastraff mewn cynhwysydd diogel addas a threfnu bod contractwr gwastraff trwyddedig yn dod i'w gasglu (cofiwch gadw tystiolaeth o'r casgliad)




Defnyddio hidlydd yn nhwll plwg y sinc a gwagio'r cynnwys i'r bin neu i flwch ailgylchu bwyd os oes un gennych




Defnyddio trapiau saim/unedau atal saim er mwyn atal braster, olew a saim rhag mynd i'ch pibellau, a chynnal a chadw'r rhain yn rheolaidd


## PEIDIWCH Â



Rhoi sbarion bwyd yn y sinc — rhowch nhw yn y bin



Arllwys olew, braster neu saim i lawr y sinc neu'r draen



Sgubo gwastraff i'r draeniau yn y llawr



Arllwys dŵr berw neu gannydd i lawr y sinc i geisio gwasgaru'r braster a'r saim. Dyw hi ddim yn gweithio!

# CADW TREFN AR EICH CEGIN

**Mae hi'n haws o lawer atal tagfeydd rhag digwydd na delio â'r goblygiadau.**


## Hyfforddwch eich staff

Mae hi'n bwysig bod eich holl weithwyr yn gwybod bod braster, olew, saim a gwastraff bwyd yn gallu achosi trafferthion mawr. Gallwch chi stopio'r bloc ac amddiffyn eich busnes trwy roi hyfforddiant rheolaidd i'ch tîm ar effaith braster, olew a saim ar eich pibellau.

## Paratowch yn dda, a chadwch eich sinciau'n glir

Dylech grafu'r bwyd oddi ar blatiau, potiau, hambyrddau ac offer a'u sychu'n lân â darn o bapur cegin cyn eu rhoi nhw yn y sinc neu'r peiriant golchi llestri, a rhoi'r sbarion yn y bin neu'r bin ailgylchu bwyd.

Dylai fod hidlydd yn nhwll plwg pob sinc er mwyn atal bwyd gwastraff rhag mynd i lawr y draen. Dylech roi'r bwyd gwastraff sy'n cronni yn yr hidlydd yn y bin sbwriel neu'r bin gwastraff bwyd yn barod i'w gasglu.



# RHEOLI BRASTER, OLEW A SAIM — BETH I'W DDEFNYDDIO

**Yn ogystal â sicrhau bod tîm eich cegin yn dilyn arferion gorau, y ffordd orau a hawsaf o atal braster, olew a saim rhag mynd i'ch pibellau carthffosiaeth yw defnyddio offer arbenigol fel trapiau, atalwyr ac unedau casglu saim.**

## Beth i'w ddefnyddio

**Trapiau/atalwyr saim**

Unedau sydd wedi cael eu dylunio'n arbennig i'w gosod ar bibellau draenio er mwyn gwahanu braster, olew a saim wrth eich dŵr gwastraff yw trapiau/atalwyr saim. Mae angen eu gwagio a'u glanhau'n rheolaidd, a dylai contractwr cludo gwastraff trwyddedig gasglu'r gwastraff i chi. Gall y cwmnïau sy'n cyflenwi'r trapiau saim eich cynghori pa fath o uned sydd orau i'ch busnes chi, ac ymhle y dylid ei gosod, hyd yn oed os yw lle yn gyfyngedig yn eich cegin.

**Unedau atal saim**

Gallwch osod unedau atal saim ar offer cegin fel sinciau, peiriannau golchi llestri a hyd yn oed ffwrn gyfunol. Maen nhw'n tynnu braster, olew a saim o'ch dŵr budr yn awtomatig ac yn eu rhoi mewn cynhwysydd ar wahân. Mae angen eu gwagio'n ddyddiol, felly bydd angen i chi sicrhau eich bod chi'n ffactora hyn i drefn ddyddiol eich cegin.

## Beth na ddylech ei ddefnyddio

**Mwydwyr bwyd**

Dydyn ni ddim yn argymell defnyddio mwydwyr bwyd am nad ydyn nhw'n atal y braster, olew a saim sydd mewn bwyd rhag mynd i'r garthffos. Taflwch wastraff bwyd i'r bin.

## Cadwch eich offer yn gweithio'n iawn

Mae hi'n bwysig iawn eich bod chi'n cynnal a chadw unrhyw offer sydd gennych, a'ch bod yn trefnu bod cyflenwr arbenigol yn ei wasanaethu'n rheolaidd. Fel arall mae perygl na fyddan nhw'n gweithio'n iawn.

Dylech gadw cofnodion a derbynebion cynnal a chadw hefyd, am y bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth bod y gwaith cynnal a chadw wedi cael ei gyflawni os cawn ni alwad i ddod allan i ddelio â thagfa mewn carthffos.

Gall ein tîm eich cynghori am systemau rheoli saim yn rhan o'n harchwiliad cegin — cofiwch taw chi sy'n gyfrifol am atal braster, olew a saim i'r pibellau carthffosiaeth.

# AILGYLCHU / GWAREDU OLEW

## Ar ôl gorffen gyda'ch olew, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael gwared arno yn y ffordd gywir.

Dylech gasglu olew a braster gwastraff mewn cynhwysydd dan sêl fel nad oes drewdod cas ac fel na fyddwch yn denu llygod. Dylech storio'n cynhwysydd mewn lle diogel, yn glir o'r holl ddraeniau.

Mae hi'n bwysig bod eich contractwr gwastraff yn gludwr gwastraff trwyddedig. Gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n rhoi copi o'r nodyn trosglwyddo gwastraff i chi, a bod y gwastraff yn cael ei gludo i safle rheoli gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw nodiadau trosglwyddo gwastraff am ddwy flynedd — gallech gael dirwy o £300 neu gellir eich erlyn os na allwch chi ddarparu'r gwaith papur yma ar gais.



# GOFYNION CYFREITHIOL A DIRWYON

**Fel y dywedwyd eisoes, chi sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw'ch busnes yn achosi tagfeydd yn y garthffos. Y gwir amdani yw y gall anwybyddu'r rheolau arwain at erlyniad, camau gorfodi a dirwyon diderfyn o dan nifer o gyfreithiau a deddfau.**

**Deddf y Diwydiant Dŵr 1991**
O dan adran 111 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, mae hi'n drosedd rhyddhau i'r garthffos gyhoeddus unrhyw fater a all darfu ar lif y dŵr gwastraff. Mae hi'n caniatáu hefyd i'r cwmni dŵr adfer y costau a dynnwyd wrth ddelio â'r broblem os ceir taw rhywun yn rhoi pethau amhriodol yn y garthffos oedd yr achos. Gall erlyniadau olygu dirwyon sylweddol neu hyd yn oed dedfryd o garchar.

**Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 — Dyletswydd Gofal**
Amcan y Ddyletswydd Gofal yw sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei reoli'n gywir o'r fan lle mae'n cael ei gynhyrchu (eich busnes) i'r pwynt gwaredu terfynol. Rhaid i chi sicrhau bod y casglwr wedi cofrestru gyda Chyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a'u bod nhw'n mynd â'ch gwastraff i safle gwaredu trwyddedig. Dylech gadw pob derbynneb a dogfen pan fo'ch gwastraff yn cael ei gasglu am y gellir gofyn i chi ddangos y rhain - gallech wynebu dirwy o £300 neu erlyniad os na allwch chi ddarparu'r gwaith papur yma ar gais.

**Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 — Niwsans Statudol**
Bydd adran iechyd yr amgylchedd yn eich awdurdod lleol yn delio ag unrhyw gwynion 'niwsans statudol' fel drewdod, elifiant, croniant o sbwriel. Mewn achos o niwsans statudol, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno 'hysbysiad atal' o dan Adran 80 o'r Ddeddf. Gall methiant i gydymffurfio arwain at erlyniad, a gallai'r awdurdod lleol gau'r busnes.

**Deddf Diogelwch Bwyd 1990**
Mae gan awdurdodau lleol yr hawl i archwilio eiddo o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Gall problemau sy'n deillio o effaith braster, olew a saim ar ddraeniau, sy'n arwain at fethiant i gydymffurfio â'r Rheoliadau Hylendid Bwyd, arwain at erlyniad neu waharddiad brys i atal masnachu o'r eiddo.

**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid y CE 1774/2002 (ABPR)**
Ni chaniateir defnyddio olew coginio gwastraff o safleoedd arlwyaeth mewn porthiant anifeiliaid mwyach. Mae hyn er mwyn amddiffyn y gadwyn fwyd. Rhaid i olew coginio gwastraff gael ei gasglu gan gludwr gwastraff trwyddedig ac ni chaniateir gwaredu gwastraff hylifol mewn safleoedd tirlenwi.

**Deddf Adeiladu 1984**
Mae Adran 59 o Ddeddf Adeiladu 1984 yn caniatáu i awdurdod lleol fynnu bod darpariaeth foddhaol yn cael ei gwneud ar gyfer draenio mewn adeilad cyfredol trwy gyflwyno hysbysiad i'r perchennog. Gall hyn gynnwys mynnu gosod trapiau saim ac offer arall sy'n angenrheidiol er mwyn atal braster, olew a saim rhag mynd i'r garthffos.

**Dogfen Cymeradwyo Rheoliadau Adeiladu — Rhan H**
Mae Adran 2.21 yn cynghori y dylai'r draeniau sy'n gwasanaethu ceginau mewn eiddo masnachol sy'n gwneud bwyd cynnes fod â didolwr saim neu ddull effeithiol arall o wahanu'r saim wrth y dŵr gwastraff.

# GWYBODAETH BELLACH

**Ewch i StopCynCreuBloc.com i gael rhagor o wybodaeth am effaith braster, olew a saim ar eich pibellau.**

Mewn argyfwng, gallwch gysylltu â'n tîm 24 awr y dydd ar **0800 085 3698**.

Os ydych chi wedi cael ymweliad gan un o'n Swyddogion Atal Tagfeydd, neu os oes angen cyflawni archwiliad o'ch cegin, cysylltwch â ni a gofyn am gael siarad ag aelod o'ch tîm Rhwydwaith Dŵr Gwastraff lleol ar **0800 085 3968**.

Os cewch broblem gyda'ch cyflenwad dŵr, ffoniwch **0800 260 5051**.

## Cysylltiadau defnyddiol eraill:

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
naturalresources.wales
0300 065 3000

**Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr)**
environment-agency.gov.uk
03708 506 506

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**
food.gov.uk
Cymru: 029 2067 8999
Lloegr: 020 7276 8829